Trawsgrifiad - Richard

Ar hyn o bryd, yn fy rôl fel Rheolwr Prosiect Digiskills Cymru, mae llawer o'm gwaith yn ymwneud â hyrwyddo gwahanol ffyrdd o ddysgu ar-lein ac OpenLearn yw'r lle cyntaf i fynd o ran dangos budd dysgu ar-lein i bobl a rhoi llwybr dilyniant i ddysgu pellach iddynt. Yng Nghronfa Ddysgu Undebau Cymru rydym yn aml yn canolbwyntio ar roi sgiliau hanfodol i bobl neu'r sgiliau er mwyn iddynt ddychwelyd i ddysgu er mwyn rhoi hyder iddynt. Ar ôl gorffen ein gwaith yn y maes hwnnw, mae pobl yn aml yn chwilio am lwybr dilyniant ac OpenLearn yw'r llwybr dilyniant delfrydol i bobl sydd efallai yn bwriadu defnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt drwy ddysgu yn y gweithle, mewn addysg uwch a datblygu eu sgiliau a'u gyrfa ymhellach.